# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2013/14

**Cynghorydd:** Evan Selwyn Griffiths **Grŵp:** Plaid Cymru

**Ward:** Porthmadog - Gorllewin

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**
Rwyf yn aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Craffu Corfforaethol, Pwyllgor Ardal Dwyfor, Pwyllgor CYSAG (Cadeirydd), Pwyllgor Harbwr Porthmadog, Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion

**Gweithgareddau etholaethol:**

Rwyf wedi cydweithio efo pwyllgor yr Ysgol Feithrin ym Mhorthmadog i chwilio am safle newydd.

Bu i mi gydweithio gyda swyddogion i wella diogelwch mynediad disgyblion i Ysgol Eifionydd. Llwyddwyd i gael grant i adeiladu pont droed newydd a oedd yn addas hefyd i feicwyr. Yn yr un modd, bu i mi gydweithio gyda staff Ysgol Eifion Wyn i wella diogelwch y disgyblion wrth fynedfa'r ysgol.

Bu i mi drefnu noson rwydweithiol 'Hybu Busnesau' ym Mhorthmadog a fynychwyd gan chwe deg o fusnesau lleol

Bûm yn Gadeirydd gweithgareddau Cob 200 a ddaeth i ben haf 2013 pan ddadorchuddiwyd cerflun o Madocks.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi bod yn rhan o weithgor a oedd yn edrych i mewn i ddulliau o gefnogi pobl hŷn yn y dyfodol yn nalgylch Porthmadog.

Trwy waith caled a chydweithio, llwyddwyd i ddenu grantiau i godi toiledau a darpariaethau eraill ger y prif fynedfa i Draeth y Greigddu – bu i hyn fod yn gymorth i gael y faner las i'r traeth.

Bu i mi gydweithio â thrigolion Morfa Bychan i sefydlu pwyllgor newydd i gymryd cyfrifoldeb am y cae ac i edrych mewn i ffyrdd o wella'r ddarpariaeth gyda chymorth Swyddog Adfywio'r ardal.

Bu i mi drefnu noson i drigolion Morfa Bychan i drafod trefniadau ailgylchu'r Cyngor.

Bûm yn cydweithio gyda swyddogion i wella diogelwch trwy godi ynys a fyddai yn sicrhau gwell mynediad i'r traffig o bob cyfeiriad yng nghyffordd Penamser. Bûm hefyd yn cydweithio gyda swyddogion a Chyfeillion Morfa Bychan i geisio gwella diogelwch ar y ffordd.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

Aelod o Gyngor Tref Porthmadog

Mynychu cyfarfodydd Cyfeillion Borth y Gest

Mynychu Cyfeillion Morfa Bychan

Mynychu Llywodraethwyr Ysgol Eifion Wyn fel sylwebydd

Mynych cyfarfodydd Cyfeillion Hafod y Gest

Cadeirydd Gwarchod Ardal Porthmadog

Mynychu cyfarfodydd Siambr Fasnach Porthmadog

Mynychu a chefnogi Breuddwydion Bro ardal Porthmadog

Aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Morfa Bychan

Aelod o Grŵp Ymgynghori a'r Heddlu Ardal Eifionydd

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 4 |
| Y Cabinet | 1 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 5 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd | 4 |
| Pwyllgor Cynllunio | 3 |
| Pwyllgor Safonau | 1 |
| Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion | 6 |
| CYSAG | 3 |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | 2 |
| Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 4 |
| Fforwm Ardal Dwyfor | 4 |

Canran Presenoldeb: 100%

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

- Fforwm Ailgylchu yng Ngwynedd
- Seminar Cynllun Unedol Môn a Gwynedd
- Seminar Strategaeth Ariannol ac Arbedion
- Cynhadledd Age Concern Cymru Rhanbarth Dwyfor
- Seminar Cynllun Datblygu Lleol
- Wybodaeth Economi Gwynedd
- Gweithdy Aelodau Etholedig Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Cynhadledd Cynllun Ffrindiau

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**

- TELNET
- Ysgol Eifionydd (Llwyodraethwr)
- Ysgol Borth y Gest (Llywodraethwr)
- Pwyllgor Rheoli Y Ganolfan, Porthmadog
- Pwyllgor Rebeca

Bu i mi gynrychioli Cadeirydd Cyngor Gwynedd yn:

- CYSAG Cymru i Gaernarfon (Croesawu)
- Darlith Flynyddol Lloyd George
- Croesawu Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC ar ymweliad â Neuadd Bethel.

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**

- Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian
- Grŵp Asesiad Llety a Gofal dalgylch Porthmadog
- Cyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** |
|---|
| Data Perfformiad Awdurdod ac Ysgolion |
| Llywodraethu Ysgolion a Diogelu Plant |
| Gwybodaeth am Bobl – Eich Cyfrifoldeb Chi |
| Strwythur a Chyflwr Economi Gwynedd |
| Panel Rhiant Corfforaethol |
| Anghenion Addysgol Arbennig |

| **Ychwanegol** |
|---|
| |

Cyfanswm nifer o oriau: 13.5